Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Mrs Joyce George
Ysgol Pontrhydfendigaid
Pontrhydfendigaid
Ystrad Meurig
Ceredigion
SY25 6BL

20/05/2025

Annwyl Mrs Joyce George

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Pontrhydfendigaid yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Mawrth 2023. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad a disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi dylanwadu'n effeithiol iawn ar gryfhau'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i'r argymhellion isod.

Ffocws yr ymweliad

## Sicrhau bod adborth gan staff yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

- Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pwrpasol sy'n annog staff i fyfyrio ac addasu eu dulliau wrth ddarparu adborth a marcio. Yn gyffredinol, mae hyn yn sicrhau bod gan y disgyblion adnabyddiaeth dda o'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgol uwchradd gyfagos i ddatblygu dulliau cytûn sy'n cefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo yno.
- Mae'r pennaeth wedi darparu cyfle i staff y dair ysgol sydd o dan ei harweinyddiaeth  addasu'r polisi adborth a marcio yn bwrpasol. Cyfeirir at hyn yn eu llawlyfr addysgu a dysgu yn effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at gyd-ddealltwriaeth rhwng y staff, ac yn cefnogi staff newydd yn llwyddiannus. Mae athrawon wedi gwneud addasiadau priodol i god marcio'r ysgol sy'n sicrhau ei addasrwydd i gamau datblygu pob disgybl. O ganlyniad, maent yn ei ddeall a'i gymhwyso'n gyson fel rhan o'u dulliau addysgu.
- Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n tynnu sylw'n fedrus at yr elfennau sydd angen eu gwella o fewn gwaith disgyblion. Maent yn barod iawn i arbrofi ac addasu er mwyn datblygu a gweithredu ar y dulliau mwyaf effeithiol. Mae hyn yn cyfrannu'n bwrpasol at allu'r disgyblion i adnabod a gwneud gwelliannau i'w gwaith. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i gysoni arferion effeithiol wrth ymateb i waith disgyblion ar draws yr ysgol.
- Mae staff yn cynnig adborth adeiladol ar y pryd sy'n cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn cynnal gweithgareddau sy'n ffocysu ar ysgrifennu a gwella gwaith ar y cyd yn effeithiol. Mae hyn yn arwain at ddyfnhau dealltwriaeth yr holl ddisgyblion o bwysigrwydd cymryd gofal a pharch dros gywirdeb eu cyflawniadau. Wrth i ddisgyblion ddatblygu drwy'r ysgol, defnyddir dulliau fel 'Tasg-Adborth-Gwella', sy'n cynnig adborth amserol i ddisgyblion. Mae hyn yn eu cefnogi i wella ansawdd eu gwaith ysgrifennu estynedig yn llwyddiannus.
- Trwy ddefnyddio dulliau pwrpasol fel 'Melyn Meddwl', 'Pinc Perffaith' a 'Pip o dan y Slip', darperir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion olygu, ailddrafftio a gwella ansawdd eu gwaith sy'n cael effaith gyson ar gynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu medrau.

## Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd yn llawn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

- Mae cyfleoedd cyson i arweinwyr graffu ar y ddarpariaeth mathemateg a rhifedd ar draws y tair ysgol. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth a bod disgyblion yn elwa o brofiadau cyfoethog wrth gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i staff. Yn ddiweddar, maent wedi cael hyfforddiant gwerthfawr i ddatblygu medrau adalw gwybodaeth a hyder disgyblion mewn sesiynau mathemateg pen. Erbyn hyn, mae cyfnodau adalw cyson yn y sesiynau dysgu yn cyfrannu'n briodol at gryfhau dealltwriaeth a defnydd disgyblion o amryfal gysyniadau mathemategol.
- Mae athrawon yn cyd-gynllunio cyfleoedd diddorol a chyfoethog i ddisgyblion. Maent yn darparu profiadau dysgu sy'n cynnig her briodol wrth gefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd. O ganlyniad, maent yn arddangos agweddau cadarn at fathemateg o oedran cynnar.
- Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau defnyddiol i gymell dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn effeithiol, sy'n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol ac i wirio'u dealltwriaeth yn bwrpasol.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd ysgogol a chyfarwydd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn effeithiol ac yn adeiladol dros gyfnod.
- Mae arweinwyr wedi sefydlu dulliau asesu cadarn i olrhain cynnydd disgyblion, yn enwedig ym maes mathemateg a rhifedd. Mae'r defnydd effeithiol o'r offeryn tracio yn galluogi staff i nodi bylchau yn y dysgu ac i gyd-gynllunio profiadau ystyrlon sy'n diwallu anghenion disgyblion yn fanwl. O ganlyniad, darperir cefnogaeth amserol sy'n diwallu anghenion disgyblion wrth ddarparu hwb ychwanegol ar eu cyfer i ddatblygu eu medrau mathemategol a rhifedd ymhellach.
- Mae arweinwyr a staff yn meithrin perthynas gadarnhaol ac adeiladol â rhieni i gefnogi datblygiad medrau mathemategol a rhifedd disgyblion y tu hwnt i'r ysgol. Maent yn darparu adnoddau pwrpasol, fel llyfryn rhifedd, sy'n galluogi rhieni i gymryd rhan weithredol yn addysg eu plentyn.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672353

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol